

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 6) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

27 Mawrth 2023

1. Y cefndir

1. Ar 18 Awst 2022, gosododd y Gweinidog Newid Hinsawdd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) ("y Bil") gerbron y Senedd. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ("y Memorandwm atodol (Rhif 2)") ar 5 Hydref. Gosodwyd y Memorandwm atodol ("y Memorandwm atodol (Rhif 3)") pellach ar 17 Tachwedd 2022. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm, y Memorandwm atodol (Rhif 2) a'r Memorandwm atodol (Rhif 3) ar 13 Rhagfyr 2022. Memoranda atodol pellach - cafodd y Memorandwm atodol (Rhif 4) a'r Memorandwm atodol (Rhif 5) eu gosod ar 6 Rhagfyr 2022 a 15 Chwefror 2023 yn y drefn honno. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm atodol (Rhif 4) ar 13 Ionawr 2023 ac ysgrifennwyd at y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â'r Memorandwm atodol (Rhif 5) ar 23 Chwefror 2023 yn nodi na fyddem yn gallu cyhoeddi adroddiad oherwydd y diffyg amser ar gyfer gwaith craffu.

2. Ar 9 Mawrth 2023, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol pellach, ("y Memorandwm atodol (Rhif 6)"). Ar 14 Medi 2023, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm atodol (Rhif 6) at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ("y Pwyllgor") a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 27 Mawrth 2023. Gwnaethom drafod y Memorandwm atodol (Rhif 6) yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth 2023.

2. Memorandwm atodol (Rhif 6)

3. Mae paragraffau 21 i 25 o'r Memorandwm atodol (Rhif 6) yn nodi sefyllfa ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Memorandwm atodol (Rhif 5).



3. Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

4. Mae paragraffau 26 a 30 o'r Memorandwm atodol (Rhif 6) yn nodi y gofynnir am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 21 (fel y'i diwygiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin yn y Cyfnod Adrodd) oherwydd bod ganddo ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (sef tai cymdeithasol).

Cymal 21

5. Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau newydd i'r rheoleiddiwr osod safonau sy'n ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad darparwyr tai cymdeithasol. Mae'r cymal wedi'i ddiwygio i roi pŵer pellach i'r rheoleiddiwr osod safonau er mwyn sicrhau bod gan reolwyr tai cymdeithasol gymwysterau priodol.

4. Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn yng Nghymru

6. Mae paragraff 28 o'r Memorandwm atodol (Rhif 6) yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Mae'n dweud:

"Y bwriad at ei gilydd yw y bydd y Bil, fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, yn arwain at wella perfformiad darparwyr cofrestredig, yn cryfhau hawliau tenantiaid ac yn ysgogi newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid, ac yn sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad. Bydd hyn yn arwain at newid cadarnhaol i denantiaid darparwyr cofrestredig Seisnig, gan gynnwys tenantiaid Cymru, ac felly rwy'n parhau'n fodlon y dylid gwneud y darpariaethau hyn mewn Bil gan Senedd y DU."

5. Trafodaeth a chasgliad y Pwyllgor

7. Gwnaethom drafod y Memorandwm atodol (Rhif 6) yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth 2023.

8. Rydym yn ailadrodd ein sylwadau yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol, y Memorandwm atodol (Rhif 2) a'r Memorandwm atodol (Rhif 3), ein hadroddiad ar y Memorandwm atodol (Rhif 4) ac yn ein llythyr at y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â'r Memorandwm atodol (Rhif 5). Rydym yn credu'n gryf fod yr amser byr a neilltuir i'r

broses cydsyniad deddfwriaethol yn annigonol i'n galluogi i ddeall yn llawn beth yw effaith darpariaethau ar fywydau pobl yng Nghymru.

9. Er gwaethaf y pryderon a amlinellir uchod, mae'r rhan fwyaf o'r Aelodau'n teimlo y gallant argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i ddeddfu ar y materion datganoledig hyn y tro hwn. Mae un Aelod o'r Pwyllgor, sef Mabon ap Gwynfor AS, yn anghytuno â barn y mwyafrif, ac o'r farn na ddylid rhoi cydsyniad. Nododd Mabon ap Gwynfor bryderon nad yw'n bosibl deall yn llawn a yw'r darpariaethau yn y Memorandwm atodol (Rhif 6) yn iawn i bobl Cymru gan na fu'n bosibl ymgynghori a chasglu safbwyntiau o Gymru.